

PENODI TRYSORYDD

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell yn gwahodd unigolion i ymgeisio am swydd anweithredol y Trysorydd. Y Trysorydd yw'r prif Ymddiriedolwr o ran holl faterion ariannol y Llyfrgell a chymer ran mewn trafodaethau'n rheolaidd â'r Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, ac uwch swyddogion eraill y Llyfrgell. Y Trysorydd hefyd sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cyfrifon Blyneddol i'r Bwrdd.

Bydd gan y Trysorydd ddealltwriaeth o reolaeth ariannol a gofynion cydymffurfio mewn sefydliad mawr a lefel ddigonol o arbenigedd ariannol technegol i werthfawrogi amrywiaeth y materion ariannol y mae'n rhaid i'r Llyfrgell ymdrin â nhw. Nid yw'n angenrheidiol i'r Trysorydd fod yn gyfrifydd wedi'i gymhwyso ond fe ddisgwylir bod ganddo/ganddi gryn brofiad o weithio mewn rôl ariannol neu reoli uwch, ac os yn bosibl, gyda phrofiad codi arian.

Nid yw'r ymddiriedolwyr yn derbyn tâl ond gallant hawlio costau teithio a chostau rhesymol eraill a ddeillia o wasanaethu'r Bwrdd. Gwneir y penodiad mewn ymgyngoriad â Llywodraeth Cymru a bydd yn seiliedig ar deilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg, agored a thryloyw. Tra bod huodledd yn y Gymraeg yn fantais ychwanegol nid ydyw'n gwbl hanfodol, serch hynny, gan y darperir cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

Mae'r Trysorydd yn aelod *ex-officio* o Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Llyfrgell, ac ef/hi fydd hefyd yn cadeirio Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'r Bwrdd. Mi fydd y penodiad yn cychwyn ar 1 Ebrill 2023, ond mi fydd y sawl a benodir yn treulio'r cyfnod tan hynny yn cysgodi'r Trysorydd presennol.

Os oes gyda chi ddiddordeb i ymgeisio am y rôl yma, gellir cael gwybodaeth pellach ar gyfer ymgeiswyr trwy gysylltu â Carol Edwards – carol.edwards@llyfrgell.cymru. Gellir cysylltu â David Michael, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ar david.michael@llyfrgell.cymru neu 01970 632855 os hoffech sgwrs anffurfiol am y rôl.

I ymgeisio am y rôl dylid anfon CV a llythyr o ddiddordeb at Carol Edwards, Rheolwr Llywodraethiant, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3BU, neu drwy e-bost – carol.edwards@llyfrgell.cymru

Dylid anfon ceisiadau erbyn 4.00 dydd Gwener, 15 Awst 2022